Yr eBost gwreiddiol gan Christopher Jones, Caerffynnon, Llanystumdwy

Rydych chi wedi bod o amgylch pob man i ni fel Cymru pwydleisio i chi fel plaid i cael pwer. Nawr rydych chi am gau usgolion i gyd wel na sori ond y rhai sydd im o amgylch eich lleoliad byw.

Wel pwydlais mis mai 2008 ma pawb o pentrefi a trefi ysgolion sydd yn cau im yn mynd i bwydleisio i plaid Cymru oherwydd natho chi fel plaid gaddo fysach yn gwrando i ni a dydych chi im fel plaid. Tra bod na gwyn yn fy iau a swn yn dod on ngheg fydd Plaid Cymru yn CAU.

Dwi eisiau atab pam rydych chi eisiau cau yr ysgolion ma lawr a dwim isho cal helpu'r plant. Pam o nin ysgol Llanystumdwy roedd yna tamrwydd a pethau syn yn peryg i plant. Mi gafodd Gwyn Ellis y swyth fel pennaeth a maer ysgol wedi newid llawer mae Ysgol Llanystumdwy yn iawn ac wedi bod yn rhan o cymuned pentra Llanystumdwy am 195 o flynyddoedd!!

Chris Jones.

Gweler y dudalen nesaf i ddarllen ymateb Plaid Cymru >>>

Ymateb Plaid Cymru

Annwyl Chris,

Diolch yn fawr am eich sylwadau.

Fel plaid rydym yn llwyr ymrwymiedig i ddarparu'r addysg orau posibl i blant a phobl ifanc Cymru ac i gynnal cymunedau cynhaliadwy. Credwn fod angen sicrhau rhwydwaith o ysgolion blaengar, modern a hyfwy o fewn pellter teithio rhesymol i blant.

Mae Cyngor Gwynedd yn wynebu'r her o geisio ymateb i'r lleihad yn niferoedd y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd y Sir yn ogystal ag uwchraddio isadeiledd sydd yn anaddas ar gyfer gofynion addysgiadol y ganrif newydd. Mae gwneud hyn o fewn cyd-destun ariannol hynod o anodd yn ychwanegu at y sialens honno.

Bydd y cynllun trefniadaeth ysgolion gerbron Bwrdd y Cyngor fis nesaf ac yna'r Cyngor llawn fis Rhagfyr. Yna, bydd cyfnod o ymgynghori manwl a chyfle i bawb gyfrannu'n greadigol at y broses.

Mae adroddiad Trefniadaeth Ysgolion Gwynedd ar gael ar wefan y Cyngor (linc isod) ac os am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Arweinydd y Cyngor, Richard Parry Hughes a/neu'r Arweinydd Portffolio Ysgolion, Dyfed Edwards (manylion cysylltu isod).

Yn gywir,
Plaid Cymru.

Linc i adroddiad y Cyngor:-
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=3313&doc=13004

Os am gysylltu gyda'r Cynghorwyr Richard Parry Hughes a/neu Dyfed Edwards:-

Laura Wyn Jones,
Cynorthwydd Gwleidyddol Plaid Cymru Cyngor Gwynedd,
Pencadlys y Cyngor,
Stryd y Jel,
Caernarfon,
Gwynedd.

LauraWynJones@gwynedd.gov.uk